

Fframwaith Safonau Arfarnwyr

Diben

Mae'r ddogfen fframwaith yn rhoi trosolwg o'r dangosyddion sicrwydd ansawdd ar gyfer dewis, hyfforddi a rheoli perfformiad arfarnwyr meddygol.

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer Swyddogion Cyfrifol (ROs) a'r rhai sy'n gyfrifol am ddewis, hyfforddi a rheoli arfarnwyr meddygol o fewn eu corff dynodedig. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i feddygon ac arfarnwyr.

Mae gan Swyddogion Cyfrifol ddyletswydd statudol i sicrhau bod pob meddyg sydd â chysylltiad rhagnodedig â'u corff dynodedig yn cael arfarniad meddygol addas. Mae ansawdd gweithlu'r arfarnwyr meddygol yn bwysig er mwyn sicrhau bod meddygon yn cael mynediad at arfarniad o ansawdd uchel, sy'n briodol ac yn amserol.

Meysydd Sicrwydd Ansawdd

1. Recriwtio/Dewis

Dylai'r corff dynodedig sicrhau bod proses deg ar waith ar gyfer dewis arfarnwyr. Dylai'r broses hon gynnwys ystyriaethau o'r canlynol:

- Pwy sy'n gymwys i gael eu dewis fel arfarnwr:
 - Mae meddygon cymwys yn dod o ystod eang o gefndiroedd, gan gynnwys locwm, graddau staff a meddygon arbenigedd cyswllt
- Sut y caiff arfarnwyr posibl eu hadnabod:
 - Gall dulliau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, hysbysebu a gwneud cais, hunan-enwebu neu enwebiad gan eraill, ac adolygu arfarnwyr presennol.
- Sut y caiff arfarnwyr addas eu hadnabod a'u hystyried:
 - Dylid asesu addasrwydd ar gyfer y rôl fel rhan o'r broses ddethol.
- Dylai cadarnhau penodiad ddibynnu ar gwblhau hyfforddiant cychwynnol MARS a hyfforddiant sgiliau.

2. Disgrifiad Swydd

Dylai'r corff dynodedig ddarparu disgrifiad swydd clir a hygyrch ar gyfer rôl yr arfarnwr sy'n cynnwys:

- Prif atebolrwyddau'r rôl, gan gynnwys i bwy mae'r arfarnwr yn adrodd, pwy sy'n darparu cymorth, ac at bwy y dylid uwchgyfeirio materion.
- Diben y rôl.
- Cyfrifoldebau allweddol, megis ymateb i geisiadau meddygon a chytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd; adolygu deunyddiau arfarnu a pharatoi ar gyfer y cyfarfod arfarnu; hwyluso'r cyfarfod arfarnu; dilysu tystiolaeth ar gyfer ail-ddilysu a darparu adborth; ysgrifennu crynodeb o'r arfarniad a'r cynllun datblygiad personol (PDP); cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n berthnasol i rôl yr arfarnwr.
- Canllawiau ar drefniadau indemniad ar gyfer arfarnwyr.

3. Manyleb Person

Gellir defnyddio manyleb person ar y cyd â'r argymhellion recriwtio/dethol fel rhan o'r broses gyffredinol o benodi arfarnwyr.

Dylai'r corff dynodedig sicrhau disgrifiad o'r cymwyseddau craidd a ddisgwylir gan arfarnwyr, a all gynnwys:

- Cymhwyster meddygol, trwydded GMC i ymarfer, a/neu gymeradwyaeth RO ar gyfer y rôl.
- Cymryd rhan mewn o leiaf ddwy arfarniad flynyddol.
- Ymrwymiad i egwyddorion arfarnu.
- Dealltwriaeth o egwyddorion ail-ddilysu.
- Sgiliau rhyngpersonol cryf a'r gallu i hwyluso trafodaeth arfarnu.
- Y gallu i reoli amser a llwyth gwaith i fodloni disgwyliadau perfformiad y rôl.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da.
- Y gallu i werthuso tystiolaeth ail-ddilysu yn erbyn gofynion y GMC.
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol.

4. Disgwyliadau Perfformiad

Gellir defnyddio disgwyliadau perfformiad fel rhan o system gyffredinol rheoli arfarnwyr a gellir eu hadolygu ar wahanol gamau yng ngyrfa arfarnwr er mwyn monitro perfformiad a darparu adborth.

Gall disgwyliadau perfformiad gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Cynnal o leiaf bum arfarniad y flwyddyn.
- Mae'r nifer lleiaf yn ddangosydd ansawdd, ac os na ellir cyflawni'r lleiafswm hwn, mae angen trafod hyn gyda'r Arweinydd Arfarnu i ystyried dulliau eraill o ddarparu sicrwydd ansawdd, megis hyfforddiant gloywi.
- Bydd arfarniadau cyfnewidiol a gynhelir ar gyfer corff dynodedig arall hefyd yn cyfrif tuag at y lleiafswm hwn.
- Ymateb i geisiadau arfarnu fel arfer o fewn tri i bum diwrnod gwaith.
- Darparu rhesymau dros wrthod ceisiadau.
- Ysgrifennu crynodebau arfarnu fel arfer o fewn 14 diwrnod gwaith i'r cyfarfod.
- Sicrhau bod crynodebau arfarnu yn bodloni'r meini prawf sicrhau ansawdd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer allbynnau arfarnu.
- Mynychu pob cyfarfod gofynnol, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag Arweinwyr Arfarnu.
- Mynychu lefel briodol o DPP gorfodol ar gyfer rôl yr arfarnwr, gan gynnwys un digwyddiad hyfforddi cenedlaethol neu leol y flwyddyn.
- Gweithredu fel hyrwyddwr arfarnu a model rôl proffesiynol.
- Cynnwys unrhyw gwynion a digwyddiadau arwyddocaol sy'n ymwneud â rôl yr arfarnwr mewn arfarnu.

5. Arfer Gorau

Dylid rhannu arfer gorau rhwng pedair gwlad y DU er mwyn cefnogi dangosyddion sicrwydd ansawdd cyson ledled y wlad. Mae'r dolenni yn y ddogfen hon yn berthnasol i'r fframweithiau sicrhau ansawdd ar gyfer rôl yr arfarnwr meddygol.

Mae NHS England wedi cynhyrchu dogfen, *Quality Assurance of Medical Appraisers* (Ionawr 2014), sydd ar gael yma:

<http://www.england.nhs.uk/revalidation/ro/app-syst/>

Mae NHS Scotland wedi cynhyrchu dogfennau canllaw ar adolygiadau perfformiad arfarnwyr meddygol, sydd ar gael yma:

<https://www.appraisal.nes.scot.nhs.uk/resources/for-appraisers/performance-review/>